Hysbysiad Preifatrwydd WEST

Mae angen i chi roi eich data personol i ni er mwyn cynhyrchu eich cofnod dysgu a'ch cynllun dysgu, er mwyn cynorthwyo eich tiwtor i lunio cynllun dysgu wedi'i deilwra i'ch anghenion.

Llywodraeth Cymru fydd rheolydd data unrhyw ddata personol rydych yn eu darparu wrth ymwneud â Phecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru (WEST). Caiff y data eu defnyddio at ddibenion monitro a gwerthuso yn unig. Mae'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu eich data personol yn rhan o dasg gyhoeddus Llywodraeth Cymru.

Ôl-16 - Bydd Darparwyr Hyfforddiant a HMPPS yn rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain ar gyfer unrhyw ddata personol y byddant yn eu casglu a'u prosesu i ganiatáu i hyfforddiant gael ei ddarparu.

Rhaid llenwi pob maes yn eich cofnod dysgwr oni nodir yn wahanol; mae hyn yn cynnwys lle mae 'gwell gennyf beidio â dweud' yn opsiwn.

Bydd yr holl wybodaeth sy'n cael ei darparu gennych yn cael ei phrosesu yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn nodi sut y bydd yr wybodaeth a gesglir gennych yn cael ei defnyddio a phwy fydd yn gallu ei gweld.

**Yr wybodaeth amdanoch y bydd Llywodraeth Cymru yn ei phrosesu**

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Dyddiad geni

Cyfeiriad e-bost

Sefydliad

Teitl y cwrs

**Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth ac ym mha ffordd y byddant yn defnyddio'r wybodaeth?**

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth ag unrhyw drydydd parti y tu allan i'n sefydliadau, ac eithrio fel y nodir isod:

- Gall Llywodraeth Cymru ddefnyddio eich data:
  - i wneud gwelliannau i' wefan
  - i gyfrannu at y ddarpariaeth i unigolion yn y dyfodol

- Rhannu gydag archwilwyr i asesu a yw'r prosiect/rhaglen wedi dilyn y gweithdrefnau cywir

- Cysylltu eich cofnodion â ffynonellau data eraill a ddelir gan Lywodraeth Cymru ac adrannau Llywodraeth y DU i hwyluso ymchwil i'r effaith y mae'r

prosiect wedi'i chael ar y rhai a gymerodd ran. Gallai'r ffynonellau data hyn gynnwys y set ddata Canlyniadau Addysgol Hydredol, data Gyrfa Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, cofnodion a gedwir gan Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yr Arolwg o'r Llafurlu a'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth.

- Er mwyn ein helpu i ddeall pa mor effeithiol yw'r cynllun, efallai y byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt â sefydliadau ymchwil cymeradwy fel y gallant siarad â chi am eich profiadau. Ni fyddant yn cysylltu â phawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Os bydd ymchwilwyr yn cysylltu â chi, bydd pwrpas y cyfweliad yn cael ei esbonio i chi a byddwch yn cael dewis peidio â chael eich cyfweld. Bydd y sefydliadau ymchwil yn dileu eich manylion cyswllt ar ôl cwblhau'r ymchwil. Gellir rhoi mynediad i sefydliadau ymchwil hefyd at ddata dienw (fersiynau o'r data nad ydynt yn cynnwys pethau fel enwau na manylion cyswllt) at ddibenion ymchwil, dadansoddi neu fonitro cyfle cyfartal.

- Bydd asiantaethau atal twyll yn ei ddefnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau pwy ydych chi. Os canfyddir twyll, mae'n bosibl y byddwch yn methu â chael mynediad i wasanaethau, cyllid neu gyflogaeth yn y dyfodol.

## Diogelwch a storio

Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn gweithdrefnau diogelwch llym wrth storio a datgelu gwybodaeth a roddir i ni. Mae polisi cadw Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i ni gadw eich manylion ar ein ffeiliau am 10 mlynedd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol pan fyddwch yn derbyn cyllid. Pan na fydd angen i ni gadw eich gwybodaeth mwyach, byddwn yn sicrhau y caiff ei gwaredu'n ddiogel.

Drwy dderbyn cymorth drwy'r prosiect/rhaglen hon rydych yn cydnabod y bydd gwybodaeth yn cael ei defnyddio yn y ffyrdd a nodir uchod.

O dan y ddeddfwriaeth data, mae gennych yr hawl i:

- Gael mynediad at y data personol rydyn ni’n eu prosesu amdanoch chi
- Cywiro gwallau yn y data
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar y prosesu (o dan rai amgylchiadau)
- Gofyn am i’ch data gael eu ‘dileu’ (o dan rai amgylchiadau)
- Cyflwyno cwyn i’r Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD,
CF10 3NQ

E-bost: **DataProtectionOfficer@llyw.cymru**

Os oes gennych bryder ynghylch sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Gellir cysylltu â'r ICO yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer SK9 5AD
Rhif ffôn: 01625 545 745 Ffacs: 01625 524 510
E-bost: achos://ico.org.uk

**Sut i gael gwared ar eich gwybodaeth**

Ar unrhyw adeg, gallwch ofyn i'ch gwybodaeth gael ei thynnu o'n cronfa ddata drwy anfon cais e-bost at weinyddwr y safle yn y cyfeiriad e-bost isod. Ar ôl i chi gael eich tynnu o'r gronfa ddata, efallai na fydd y wefan ar gael i chi mwyach.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am y polisi preifatrwydd hwn, cysylltwch â ni yn:

Tribal Education Limited
Wycliffe House
10 Norwich Business Park
Whiting Road
Norwich
NR4 6DJ

Rhif ffôn: 0844 811 5086
E-bost: servicedesk@tribalgroup.com

Nodwch 'Polisi preifatrwydd Pecyn Cymorth Sgiliau Hanfodol Cymru’ ar eich ymholiad.